**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

30 Ebrill 2025

Annwyl Andrew RT Davies AS,

Ysgrifennaf i ddiolch ichi a'ch cydweithwyr ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth.

Yn eich adroddiad a'ch llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 13 Chwefror, codwyd pryderon gennych mewn perthynas â'r ffaith bod Comisiwn y Senedd o fewn cwmpas cymal 26 (cymal 31 erbyn hyn yn y fersiwn o'r Bil a ddygwyd i Dŷ'r Arglwyddi o Dŷ'r Cyffredin) o'r Bil Hawliau Cyflogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ac yn gyson â deddfwriaeth arall i Gomisiwn y Senedd fod o fewn cwmpas cymal 26. Gall Llywodraeth y DU eisoes wneud rheoliadau ar faterion cydraddoldeb sy'n berthnasol i Gomisiwn y Senedd o dan adran 153(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Comisiwn y Senedd, fel Corff Corfforedig Seneddol yr Alban, wedi'i restru o dan Ran 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw wedi'i restru o dan Ran 2 o Atodlen 19 gydag awdurdodau perthnasol eraill yng Nghymru. Byddai'n anghyson i Gomisiwn y Senedd gael ei drin mewn ffordd wahanol i gyrff seneddol cyfatebol eraill.

Yn ogystal, ni all Gweinidogion Cymru osod dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar Gomisiwn y Senedd drwy adran 153(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A hynny oherwydd nad yw Comisiwn y Senedd wedi'i restru yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf honno. Byddai eithrio Comisiwn y Senedd o gwmpas cymal 26 yn rhoi Comisiwn y Senedd mewn sefyllfa anghyson.

Byddaf yn ysgrifennu at y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd ynglŷn â'r mater hwn a'r pwyntiau a godwyd yn ei llythyr dyddiedig 13 Chwefror at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Jack Sargeant

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership